

Cwestiynau cyhoeddus yng nghyfarfod Bwrdd CNC ym mis Mawrth – Adolygiad Adar Gwyllt

Cwestiwn a ofynnwyd			Ymateb CNC
1	<p>Rachel Evans</p> <p>Y Gynghrair Cefn Gwlad</p>	<p>Yn dibynnu ar benderfyniad y bwrdd ynghylch a ddylid mabwysiadu canfyddiadau'r Adolygiad Adar Gwyllt, efallai y bydd gennyf gwestiwn. Hefyd, os bydd amser yn caniatáu, ac yn dibynnu ar a fyddaf yn cael cyfle i wneud rhagor o waith ar y pwnc ai peidio, efallai y bydd angen i mi godi materion ynghylch prynu a phlannu coetir Brownhill Llangadog.</p>	<p>Nid oes angen ymateb</p>
2	<p>Glynn Evans</p> <p>BASC</p>	<p>Deallwn, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, y gellid bod wedi penderfynu ar y bwriad i dynnu rhai rhywogaethau o'r drwydded gadwraeth gyffredinol y naill ffordd neu'r llall, ond fe'i gwnaed yn seiliedig ar benderfyniad polisi mewnol gan staff CNC. A yw'r polisi hwn wedi'i rannu â bwrdd CNC ac, wrth ei ystyried, a yw effaith tynnu'r rhywogaethau hyn o'r drwydded gyffredinol hon ar rywogaethau eraill sy'n agored i niwed wedi'i hasesu?</p>	<p>Byddwn yn cyhoeddi deunydd ategol ochr yn ochr â'r trwyddedau cyffredinol newydd ym mis Ebrill. Bydd hyn yn cynnwys 'dogfen penderfyniad' sy'n nodi sut y gwnaed y penderfyniad ar bob un o elfennau'r drwydded gyffredinol a pham.</p>

Cwestiwn a ofynnwyd

Ymateb CNC

<p>3</p>	<p>Glynn Evans BASC</p>	<p>Y dewis amgen presennol i drwyddedau cyffredinol yw trwyddedau penodol. Mae rhywfaint o ddryswch mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer prosesu ceisiadau, gyda chytundeb lefel gwasanaeth CNC yn nodi 40 diwrnod gwaith a'i ffurflen gais yn dweud 30, heb sôn am broblemau o ran cwblhau ffurflen eithaf cymhleth a'r angen am dystiolaeth sylweddol sy'n annhebygol o fod ar gael ar gyfer adar sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd ar y drwydded gadwraeth gyffredinol.</p> <p>Beth bynnag yw'r amserlen, mae'n amlwg na fydd yn caniatáu i rywun sy'n dod yn ymwybodol o fater cadwraeth gael trwydded benodol (gan nodi nad oes amddiffyniad adran 4 at ddibenion cadwraeth) o fewn unrhyw beth tebyg i amserlen ddigonol.</p> <p>Felly, pa gamau mae staff CNC wedi'u cynnig i'r bwrdd i unioni'r sefyllfa hon megis gwasanaeth cyn ymgeisio (fel sydd ar waith yn Lloegr) neu fathau eraill o drwyddedau megis trwyddedau dosbarth? Ac os nad yw'r manylion hyn wedi'u darparu, a yw'r bwrdd yn hyderus y gall asesu effaith y newidiadau arfaethedig i drwyddedau cyffredinol yng Nghymru heb gynnwys yr elfen bwysig hon?</p>	<p>Ein safon gwasanaeth ar gyfer trwyddedau penodol ar gyfer rheoli adar gwyllt yw prosesu ceisiadau newydd ac adnewyddu trwyddedau o fewn 40 diwrnod gwaith a phrosesu diwygiadau o fewn 30 diwrnod gwaith (cymhleth) neu 15 diwrnod gwaith (mân).</p> <p>Yn 2021, cyfanswm yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu trwydded newydd neu adnewyddu trwydded benodol ar gyfer rheoli adar gwyllt oedd tua 9 diwrnod gwaith. Ar gyfer cais am ddiwygiad, yr amser cyfartalog oedd tua 3 diwrnod gwaith. Hefyd yn 2021, proseswyd tua 58% o'r ceisiadau am drwydded newydd neu i adnewyddu trwydded o fewn 5 diwrnod gwaith.</p> <p>Mae adnoddau a chapasiti ychwanegol wedi'u cynnwys yn y tîm trwyddedu rhywogaethau i ddiwallu anghenion defnyddwyr wrth drosglwyddo o drwyddedau cyffredinol i drwyddedau penodol lle mae newidiadau'n cael eu gwneud ac i gynorthwyo gydag ymholiadau cwsmeriaid.</p>
----------	---	---	--

Cwestiwn a ofynnwyd		Ymateb CNC	
4	<p>Glynn Evans</p> <p>BASC</p>	<p>Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfyngiadau calendr mewn perthynas â defnyddio'r drwydded gadwraeth gyffredinol, ar yr amod ei bod yn cael ei defnyddio at y diben diffiniedig o warchod cywion ac wyau adar rhywogaethau adar 'rhestredig'. Ystyriaeth bwysig i'r rhai sy'n defnyddio trwyddedau o'r fath, a argymhellir yn y drwydded gyffredinol gyffelyb yn Lloegr, yw lleihau problem adar ifanc dibynnol drwy gynnal gwaith rheoli marwol y tu allan i gyfnod bridio'r 'adar targed' pryd bynnag y bo modd. Wrth gynnig cyflwyno amserlen gul ar gyfer y drwydded hon, pa ystyriaeth mae CNC wedi'i rhoi i'r mater hwn?</p>	<p>Gan mai diben arfaethedig GL004 yw gwarchod cywion/wyau rhywogaethau sy'n fuddiolwyr, credwn y dylid cyfyngu rheolaeth farwol i'r prif dymor bridio adar ac i'r cyfnod yn union cyn y tymor bridio pan fydd brain tyddyn yn sefydlu eu tiriogaethau bridio eu hunain, sy'n amser effeithiol i gynnal gwaith rheoli.</p> <p>Mewn ymatebion i'r ymgynghoriad lle'r oedd cefnogaeth i'r dull hwn, gan, fel arall, nad yw'r rhesymeg mai diben y drwydded yw gwarchod cywion ac wyau'r rhywogaethau ysglyfaethus yn dal dŵr.</p> <p>Mewn ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd sylwadau hefyd yn erbyn y dull hwn oherwydd pryder am les cywion rhywogaethau targed.</p> <p>Rydym o'r farn y bydd caniatáu gwaith rheoli mor gynnar ag 1 Chwefror yn galluogi gwaith rheoli brain tyddyn i ddechrau cyn iddynt fridio, gan liniaru'r effaith ar les cywion i ryw raddau.</p> <p>Mae cyngor mewn rhai canllawiau arfer da yn awgrymu y dylid cyfyngu ar yr ymdrech trapio brain tyddyn i'r gwanwyn a'r haf gan mai dyma'r cyfnod pan mae ysglyfaeth fwyaf bregus a'r amser pan mae trapiau fwyaf effeithiol o ran cael gwared ar adar tiriogaethol.</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi deunydd ategol ochr yn ochr â'r trwyddedau cyffredinol newydd ym mis Ebrill. Bydd hyn yn cynnwys 'dogfen penderfyniad' sy'n egluro sut y gwnaed y penderfyniad ar bob un o elfennau'r drwydded gyffredinol a pham.</p>
5	<p>Matthew Goodall</p> <p>GWCT</p>	<p>Fel cynrychiolydd GWCT ar yr alwad, hoffwn egluro nad yw'r pwyntiau a wnaed ynghylch y tymor trapio yn eu cyd-destun cywir mwyach yn y sefyllfa rydym ynndi nawr.</p>	<p>Nid oes angen ymateb</p>

Cwestiwn a ofynnwyd**Ymateb CNC**

6	Matthew Goodall GWCT	Sut gall CNC fod yn siŵr na fydd cael gwared ar biod yn cael effaith andwyol ehangach ar fioamrywiaeth (o ystyried y dystiolaeth glir o effaith ysglyfaethu)?	<p>Ni allwn fod yn siŵr. Ni allwn fod yn siŵr chwaith y bydd cadw piod ar drwydded gyffredinol yn cael effaith fuddiol ar fioamrywiaeth, ac nid yw'r dystiolaeth o effaith ysglyfaethu piod ar rywogaethau eraill yn cyfiawnhau hynny.</p> <p>Mae'n fater o gydbwysu risg yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Dyma'r hyn rydym wedi bod yn ei ystyried fel rhan o'n hadolygiad ac wrth ddatblygu'r cynnig yr ymgynghorwyd arno.</p> <p>Mae trwyddedau cyffredinol yn ddull rheoleiddio sy'n fwriadol ysgafn.</p> <p>Rydym wedi mireinio ein dull o ymdrin â thrwyddedau cyffredinol yn y cyd-destun hwn: eu cyhoeddi mewn sefyllfaoedd cyffredin, eang, risg isel yn unig lle rydym yn fodlon bod y dystiolaeth yn cyfiawnhau rhoi trwydded gyffredinol sy'n caniatáu gwaith rheoli marwol a lle nad yw'r rhywogaeth darged yn destun pryder cadwraethol. Mae cymhwyso'r egwyddorion hyn wedi arwain at leihau cwmpas trwyddedau cyffredinol ymhellach o ran diben a rhywogaethau, yn ogystal â'r newidiadau a wnaethom yn 2019.</p> <p>Gellir gwneud cais am Drwyddedau Penodol o hyd, ar gyfer unrhyw sefyllfa nad yw'n dod o dan drwyddedau cyffredinol.</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi deunydd ategol ochr yn ochr â'r trwyddedau cyffredinol newydd ym mis Ebrill. Bydd hyn yn cynnwys 'dogfen penderfyniad' sy'n egluro sut y gwnaed y penderfyniad ar bob un o elfennau'r drwydded gyffredinol a pham.</p>
---	---	---	--

Cwestiwn a ofynnwyd		Ymateb CNC
7	<p>Matthew Goodall</p> <p>GWCT</p>	<p>Pam mae CNC yn hapus i ddefnyddio meini prawf BoCC nad yw'n fesur o faint poblogaeth absoliwt ac nad oes ganddo unrhyw gyd-destun i faint poblogaeth hanesyddol a dim cyd-destun cymharu rhwng rhywogaethau ysglyfaethus a rhywogaethau ysglyfaethau sydd mewn perygl? O ystyried mai sail egwyddor 5 CNC yw deddfwriaeth yr UE sy'n dweud na ddylai trwydded gael effaith andwyol ar statws cadwraeth unrhyw rywogaeth ac nad oes tystiolaeth o gwbl i awgrymu bod trwyddedau cyffredinol yn effeithio ar boblogaethau'r rhywogaeth sydd arnynt.</p>

Mae Adar o Bryder Cadwraethol (BoCC) yn gadarn ac yn annibynnol a dibynnir yn eang arno i bennu blaenoriaethau cadwraeth adar, mae ganddo asesiad penodol i Gymru ac mae'n edrych ar dueddiadau hirdymor.

Rydym wedi datblygu cyfres o egwyddorion i lywio pa sefyllfaoedd sy'n briodol yn ein barn ni ar gyfer rhoi trwydded gyffredinol. Mae Egwyddor 5 yn dweud y byddwn ond yn caniatáu gwaith rheoli marwol ar rywogaeth 'darged' o dan drwydded gyffredinol os na fydd risg y bydd yn cael ei rhoi mewn statws cadwraeth anffatriol.

Nid yw trwyddedau cyffredinol yn pennu terfynau ar nifer yr adar y gellir eu cymryd, ac nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr trwydded roi gwybod faint o adar y maent wedi'u cymryd o dan y drwydded. Er mwyn sicrhau nad yw caniatáu gwaith rheoli marwol ar rywogaeth o dan drwydded gyffredinol yn peryglu ei statws cadwraeth, prin yw'r amgylchiadau lle gellir cynnwys rhywogaeth ar drwydded gyffredinol.

Credwn na ddylai rhywogaethau targed sydd wedi'u cynnwys ar drwydded gyffredinol fod yn destun pryder cadwraeth. Rydym yn cynnig y dylid defnyddio rhestr gwyrd/oren/coch BoCC ar gyfer Cymru, i lywio ein hystyriaeth o ba rywogaethau targed o adar gwyllt sy'n destun pryder cadwraethol.

Byddwn yn cyhoeddi deunydd ategol ochr yn ochr â'r trwyddedau cyffredinol newydd ym mis Ebrill. Bydd hyn yn cynnwys 'dogfen penderfyniad' sy'n egluro sut y gwnaed y penderfyniad ar bob un o elfennau'r drwydded gyffredinol a pham.

Cwestiwn a ofynnwyd		Ymateb CNC
8	<p>Matthew Goodall</p> <p>GWCT</p>	<p>Pa hyder sydd gan CNC bod y trwyddedau penodol yn addas i'r diben ac ar beth y maent yn seilio'r hyder hwn?</p>
		<p>Un o ddibenion allweddol yr adolygiad rydym wedi bod yn ei gynnal yw gwella hyder yn ein dull o ymdrin â thrwyddedau cyffredinol a thrwyddedau penodol.</p> <p>Wrth roi trwyddedau penodol, mae CNC yn ddarostyngedig i God y Rheoleiddwyr. Asesir ceisiadau am drwyddedau penodol ar sail eu rhinweddau unigol ac, wrth eu caniatáu, mae angen i ni fod yn fodlon eu bod yn angenrheidiol ac y byddant yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r broblem neu'r angen dan sylw.</p> <p>Yn ogystal ag adolygu ein trwyddedau cyffredinol, rydym wedi edrych ar sut y gallwn wella ein dull o ymdrin â thrwyddedau penodol, a gofynnwyd am sylwadau ar hyn drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus.</p>
9	<p>Matthew Goodall</p> <p>GWCT</p>	<p>Pam nad yw CNC wedi ystyried trwydded dosbarth a fyddai'n cynnwys elfen gofrestru a chofnodi yn lle trwydded benodol sy'n gofyn am fwy o adnoddau i'w chyhoeddi a mwy o waith papur beichus i'r ymarferydd?</p>
		<p>Pe bai trwydded dosbarth at ddiben gwarchod adar yn golygu gwneud dim mwy na'i gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr gofrestru gyda CNC er mwyn defnyddio'r drwydded, ni fyddai'n wahanol iawn i drwyddedau cyffredinol ac, yn benodol, ni fyddai'n datrys y cwestiwn a oedd y dystiolaeth o ddiben/angen cadwraeth gwirioneddol yn ddigonol i gyfiawnhau awdurdodiad mor eang i gyflawni gwaith rheoli marwol ar rywogaeth benodol.</p> <p>Gallai system trwydded dosbarth olygu, yn ogystal â chofrestru defnyddwyr, sefydlu rhyw fath o fframwaith cymhwysedd, lle mae'n rhaid i ddarpar ddefnyddwyr ddarparu tystiolaeth o'u cymhwysedd (cymwysterau neu brofiad) i reoli adar at ddibenion cadwraeth, a lle mai dim ond y rhai sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd gofynnol fyddai'n cael dod yn ddeiliaid trwydded cofrestredig. Credwn y byddai heriau ymarferol sylweddol o ran dylunio a gweithredu fframwaith o'r fath, a gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol, er enghraifft, byddai rhywun â diben cadwraeth gwirioneddol ar gyfer rheoli adar nad oeddent yn gallu bodloni i fodloni'r meini prawf cymhwysedd yn cael eu hatal rhag gwneud gwaith cadwraeth.</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi deunydd ategol ochr yn ochr â'r trwyddedau cyffredinol newydd ym mis Ebrill. Bydd hyn yn cynnwys 'dogfen penderfyniad' sy'n egluro sut y gwnaed y penderfyniad ar bob un o elfennau'r drwydded gyffredinol a pham.</p>

Paratowyd gan Sarah Wood, Adam Cole-King, Ian Williams, Jessica Poole, Pat Lindley (04/04/2022).